

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 3 (Cyfnewidfa
Pencaledog) i Gyffordd 4
(Cyfnewidfa Dalar Hir), Ynys
Môn) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
Order 2019

The A55 Trunk Road (Junction 3
(Pencaledog Interchange) to
Junction 4 (Dalar Hir Interchange),
Isle of Anglesey) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2019

Gwnaed 4 Ionawr 2019
Yn dod i rym 12 Ionawr 2019

Made 4 January 2019
Coming into force 12 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) i Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 12 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 3 (Pencaledog Interchange) to Junction 4 (Dalar Hir Interchange), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 12 January 2019.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2. (1) In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 21:00 ar 12 Ionawr 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Gaerdybi.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn cyfan o’r gerbyffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) hyd at y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Holyhead Trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 21:00 on the 12 January 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4, and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

4 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians

1. The entire length of the eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange) to the eastbound entry slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

4. Y darn cyfan o'r gerbyffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

6. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

2. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).

3. The entire length of the eastbound exit slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

4. The entire length of the westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).

5. The entire length of the westbound entry slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

6. The entire length of the westbound exit slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 3 (CYFNEWIDFA PENCALEDOG)
I GYFFORDD 4 (CYFNEWIDFA DALAR HIR),
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU,
BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2019**

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 3
(PENCALEDOG INTERCHANGE) TO
JUNCTION 4 (DALAR HIR INTERCHANGE),
ISLE OF ANGLESEY) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) a Chyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir), Ynys Môn.

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 3 (Pencaledog Interchange) and Junction 4 (Dalar Hir Interchange), Anglesey.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 21:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2019 hyd 03:00 o'r gloch ar 13 Ionawr 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 21:00 hours on 12 January 2019 until 03:00 hours on 13 January 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local

(Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn cyfan o'r gerbyttffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) hyd at y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).
 2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).
 3. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).
 4. Y darn cyfan o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).
 5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).
 6. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).
- Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 3 yw mynd ar yr A5 tua'r dwyrain Ffordd Caergybi i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 4: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 4.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians and Alternative Routes

1. The entire length of the eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange) to the eastbound entry slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).
 2. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).
 3. The entire length of the eastbound exit slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).
 4. The entire length of the westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).
 5. The entire length of the westbound entry slip road at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).
 6. The entire length of the westbound exit slip road at Junction 3 (Pencaledog Interchange).
- The alternative route for eastbound traffic from Junction 3 is via the eastbound A5 Holyhead Road to rejoin the A55 at Junction 4: vice versa for westbound traffic from Junction 4.

